# Y PWYLLGOR CYNLLUNIO
## 12 RHAGFYR 2016

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** **S.M. Allen, J.M. Charles, A.P. Cooper, D.B. Davies (Is-gadeirydd), J.A. Davies, T. Davies, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, A.W. Jones, W.J. Lemon, M.J.A. Lewis, K. Madge, J.S. Williams**

**Y Cynghorydd D.J.R. Bartlett – yn lle'r Cynghorydd M.K. Thomas**
**Y Cynghorydd P.M. Hughes – yn lle'r Cynghorydd I.W. Davies**

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd C.P. Higgins, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio S/32808

**Yn bresennol fel sylwedydd:**

Y Cynghorydd A. James a oedd yn bresennol ynghylch cais cynllunio W/33218

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr J. Edwards – Rheolwr Rheoli Datblygu
Mr S. Murphy – Uwch-gyfreithiwr
Mr G. Noakes – Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain)
Mr J. Thomas – Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De)
Mr S. Thomas – Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Gorllewin)
Mr K. James – Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
Mr M. Hughes – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00 – 11:45yb)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr I.W. Davies, H.I. Jones a M.K. Thomas.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **RHANBARTH Y DWYRAIN**

3.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.

| | |
|---|---|
| **E/34084** | **Dymchwel 2 fwthyn ac adeiladu 2 fwthyn newydd yn Myrtle Hill, Myddfai, Llanymddyfri, SA20 0HZ** |

3.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gymeradwyo'r rhesymau dros wrthod oedd wedi eu drafftio gan y Pennaeth Cynllunio, fel yr oeddynt yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol yr oedd y Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthod caniatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 10 Tachwedd 2016.

| | |
|---|---|
| **E/34372** | **Codi garej unllawr â tho ar oleddf ar y talcen yn 125 Heol Saron, Saron, Rhydaman, SA18 3LH** |

4. **RHANBARTH Y DE**

4.1 **PENDERFYNWYD** gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.

| | |
|---|---|
| **S/32808** | **Gosod a gweithredu fferm solar a fydd yn cynnwys araeau haul, gwrthdroyddion, ceblau, ffensys diogelwch, camerâu diogelwch a thraciau mynediad dros dro, ar dir wrth ochr ac i'r gogledd i Heol Pontarddulais (A483), Tŷ-croes, Rhydaman.**<br><br>Cafwyd sylw oedd yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio hwn. Roedd y gwrthwynebiadau'n cynnwys rhai o'r pwyntiau a wnaed yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, yn benodol:<br><br>• Effaith weledol y datblygiad arfaethedig a'r effaith negyddol ar y preswylfeydd sy'n amgylchynu'r safle.<br>• Yr effaith ar ffordd brysur yr A483 a fydd â rhagor o gerbydau yn troi i mewn i'r safle ac allan ohono.<br>• Y budd economaidd i bentref Tŷ-croes.<br>• Pam bod y cynnig wedi cael ei leihau o gymharu â'r cais blaenorol ac a oedd perygl y bydd yn cael ei ehangu yn y dyfodol? |

**RHESWM:** Er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â safle'r cais i ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch ar y ffordd a'r effaith weledol ar y cefn gwlad o amgylch.

4.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.

| | |
|---|---|
| **S/34536** | **Adeiladu tair preswylfa ar wahân (amlinelliad) ar dir y tu cefn i 45-53, Heol Pemberton, Llanelli, SA14 9BG** |
| **S/34596** | **Eiddo preswyl ac iddo bum ystafell wely, a llecyn amwynder preifat, yn 144-145, Pentre Nicklaus, Llanelli, SA15 2DF**<br><br>Daeth sylw i law o blaid y cais oedd yn datgan y byddai'r preswylfeydd arfaethedig yn cyd-fynd â chymeriad a golwg y tai cyfagos. |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN

5.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor nad oedd gwrthwynebydd i'r cais canlynol yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch. Felly, **PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL** y dylid gohirio ystyried y cais cynllunio er mwyn i'r gwrthwynebydd fedru bod yn bresennol i annerch y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **W/33218** | **Adeiladu preswylfa i weithiwr amaethyddol a garej, a'r holl waith cysylltiedig (materion a gadwyd yn ôl o ran cais amlinellol W32328) ar ran o dir ger Sarnginni, Llanybydder, SA40 9SA** |

5.2 **PENDERFYNWYD** gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.

| | | |
|---|---|---|
| **W/34187** | | **10 carafán newydd a 2 garafán sefydlog arfaethedig ym Mharc Carafannau Waunygroes, Llan-y-bri, Caerfyrddin, SA33 5AN**<br><br>Cafwyd sylw ynghylch y datblygiad arfaethedig a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio hwn. Roedd y datganiad yn adleisio rhai pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol ac a amlinellwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, yn benodol:<br><br>• Capasiti'r ffyrdd lleol<br>• Y manteision economaidd i'r ardal leol<br>• Yr effaith weledol ar y cefn gwlad o amgylch |

**RHESWM:** Er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â safle'r cais i ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch capasiti'r ffyrdd a'r effaith weledol ar y cefn gwlad o amgylch.

5.3 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gymeradwyo'r rhesymau dros wrthod oedd wedi eu drafftio gan y Pennaeth Cynllunio, fel yr oeddynt yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol yr oedd y Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthod caniatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 22 Tachwedd 2016.

| | |
|---|---|
| **W/33933** | **Newid defnydd er mwyn storio 136 o gynhwysyddion ychwanegol, yn agored, ar dir fferm Blaenisfael, Nant-y-Caws, Caerfyrddin, SA32 8HB** |

6. **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10FED TACHWEDD, 2016**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2016, gan eu bod yn gywir.

**LLOFNODWYD:** ____________________________ (Cadeirydd)

**DYDDIAD:** ____________________________

*Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar Agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*